



Cyngor Tref Aberteifi :: Cardigan Town Council

Cofnodion Cyfarfod o'r Cyngor gynhaliwyd nos Fawrth, 2 Medi 2014 am 6.30yh
yn Ystafell Gynhadledd Antur Teifi, Aberteifi.

Minutes of the Council Meeting held on Tuesday, 2 September 2014 at 6.30pm
at the Antur Teifi Conference Room, Cardigan.

Presennol/Present—Cynghorwyr/Councillors Graham Evans (*yn y gadair/in the chair*),
John Adams-Lewis, Dai Brabrook, Clive Davies, Ken Edwards, Llwyd Edwards, Melfydd George,
Gwynfi Jenkins, Richard Jones, Catrin Miles, Jane Roche, Akira Shimazaki.

1. Croeso'r Cadeirydd a Materion Personol.

The Chair's Welcome and Personal Matters.

Croesawodd y Maer, y Cyng. Graham Evans, bawb i'r cyfarfod yn cynnwys pedwar aelod o'r cyhoedd i wrando ar drafodaeth ynglyn â chais cynllunio A130862 (Ffordd Dinbych y Pysgod).

Cydymdeimlwyd â phartner y clerc, Mrs Hildreth Owen, ym marwolaeth sydyn ei hwyres ifanc, Iola Mair, yn Seland Newydd. Diolchodd y clerc am gefnogaeth a chydymdeimlad aelodau'r cyngor. Llongyfarchwyd y Cyng. Richard Jones am gynnal Gŵyl Crug Mawr dros benwythnos Gŵyl y Banc; da oedd deall am lwyddiant y fenter.

Gwyntyllodd y Maer ei bryder am absenoldeb rhai cynghorwyr i gyfarfodydd y cyngor drwy gydol y flwyddyn; roedd presenoldeb amryw rai yn amlwg hefyd mewn gwasanaethau a chyfarfodydd allgyrsiol y cyngor.

The Mayor, Cllr Graham Evans, welcomed all to the meeting including four members of the public present to attend the discussion on the A130862 planning application (Tenby Road). Sympathy was extended to Mrs Hildreth Owen, the clerk's partner, following the sudden passing of her youngest granddaughter, Iola Mair, in New Zealand. The clerk thanked members of the council for their sympathy and support. Cllr Richard Jones was congratulated on the success of the August Bank Holiday weekend Crug Mawr Festival. The Mayor expressed his concern that some members' presence at council meetings left much to be desired; the attendance of some members at other meetings and extra-curriculum events also needs improving, he stressed.

2. Ymddiheuriadau / Apologies: Cyngh./Cllrs Neal Jones (*gwyliau/holidays*), Mark Cole (*dyletswyddau gwaith/work commitments*).

3. Datgan Diddordeb Rhagfarnol a Pheronol gan Cynghorwyr.

Declaration of Prejudicial and Personal Interest by Councillors.

Cyng./Cllr John Adams-Lewis	Yr holl faterion cynllunio/All planning matters
Cyng./Cllr Catrin Miles	A130862: Tenby Road

4. Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod y Cyngor 1 Gorffennaf.

Confirmation of Minutes of 1 July Council Meeting.

Tud. 863, eitem 11(b)(ii): Roedd y ffordd yn Patch ar gau tra bo'r gwaith yn cael ei gyflawni.
Page 864, item 11(b)(ii): The Coronation Drive at Patch was closed for the duration of the road works.

Gyda'r cywiriad uchod, cynigiwyd gan y Cyng. John Adams-Lewis ac eiliwyd gan y Cyng. Dai Brabrook bod cofnodion cyfarfod y cyngor 1 Gorffennaf yn gywir.

With the above amendment it was proposed by Cllr John Adams-Lewis and seconded by Cllr Dai Brabrook that the July 1 council minutes were correct.

Materion yn codi o'r Cofnodion / Matters arising from Minutes.

Tud. 860, eitem 5 (Y Lleng Brydeinig): Dywedodd y Cyng. Catrin Miles y byddai arddangosfa o hen luniau cyfnod y Rhyfel Mawr yn cael ei chynnal yn Theatr Mwldan am bedair wythnos ar ddiwedd Hydref/dechrau Tachwedd. Fe ddangosir y ffilm, "Oh, What a Lovely War", yn y sinema ar yr un adeg.

Tud. 861, eitem 8 (Bandstand): Derbyniwyd grant o £150 oddi wrth y cyngor sir tuag at baent i'r Bandstand fel rhan o gynllun Cronfa Adnewyddu Pentrefi Cyngorau Tref a Chymuned Ceredigion ("Balchder Pentrefi").

Page 860, item 5 (*British Legion*): Cllr Catrin Miles stated that an exhibition of photographs depicting the Great War era would be held at Theatr Mwldan at the end of October/beginning November. The film "Oh, What a Lovely War" will be shown at the cinema during that period.

Page 862, item 8(a): A grant of £150 towards the painting of the Bandstand has been received from the county council – the final instalment from the Ceredigion Community and Town Councils Village Renewal Fund ("Balchder Pentrefi") towards the project.

5. Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol Arbennig y Cyngor 15 Gorffennaf.

Confirmation of Minutes of 15 July Council Extraordinary General Meeting.

Cynigiwyd gan y Cyng. Llwyd Edwards ac eiliwyd gan y Cyng. Melfydd George bod cofnodion Cyfarfod Cyffredinol Arbennig y cyngor, 15 Gorffennaf, yn gywir.

It was proposed by Cllr Llwyd Edwards and seconded by Cllr Melfydd George that the minutes of the Council Extraordinary General Meeting held on 15 July were correct.

Materion yn codi o'r Cofnodion / Matters arising from Minutes.

Tud. 868, eitem 2 (Toiledau Cyhoeddus): Derbyniwyd galwad ffôn oddi wrth Mr Paul Arnold yn dweud ei fod ar ei wyliau tan 9 Medi. Bydd yn ymateb i argymhellion y cyngor erbyn yr Iſ-bwyllgorau. Ychwanegodd y Cyng. Catrin Miles ei bod wedi siarad gyda Mr Huw Morgan, Cyfarwyddwr Strategol y cyngor sir, a chytunodd yntau drafod y broblem yn ei chrynswth gydag aelodau cyngor y dref. Disgwylir rhagor o wybodaeth oddi wrth y Cyng. Miles ynglyn â hyn.

Tud. 869, eitem 3 (Goleuadau Nadolig): Dywedodd y Cyng. Graham Evans ei fod wedi siarad â swyddog y cyngor sir am gyflwr peryglus y goleuadau Nadolig ar strydoedd y dref. Cytunodd y Cyng. Richard Jones drefnu eu tynnu oddi yno gyda chymorth y Cyng. Dai Brabrook.

Page 868, item 2 (*Public Conveniences*): Mr Paul Arnold contacted the clerk by telephone stating that he was on his vacation until 9 September; he would respond to the council's recommendations by the next sub-committees. Cllr Catrin Miles added that she had spoken to Mr Huw Morgan, the county council's Strategic Director, regarding the dispute, and Mr Morgan had agreed to discuss the problem in depth with members of the town council. Cllr Miles will report back with further information in due course.

Page 869, item 3 (*Christmas Lights*): Cllr Graham Evans stated that following a conversation with a county council officer, it was agreed that the Christmas lights should be removed forthwith. Cllr Richard Jones, with the assistance of Cllr Dai Brabrook, agreed to organise their removal.

6. Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol Arbennig y Cyngor 12 Awst.

Confirmation of Minutes of 12 August Council Extraordinary General Meeting.

Tud. 877, eitem 6(a) [yn y Saesneg]: Dyddiad anrhydeddu'r Prifardd Ceri Wyn Jones: "19 September" nid "10".

Page 877, item 6(a): The date for the Ceri Wyn Jones presentation should read "19 September" not "10".

Gyda'r cywiriad uchod, cynigiwyd gan y Cyng. Dai Brabrook ac eiliwyd gan y Cyng. Jane Roche bod cofnodion Cyfarfod Cyffredinol Arbennig y Cyngor 12 Awst yn gywir.

With the above correction, it was proposed by Cllr Dai Brabrook and seconded by Cllr Jane Roche that the 12 August Council Extraordinary General Meeting were correct.

Materion yn codi o'r Cofnodion / Matters arising from Minutes.

Tud. 875, eitem 4: Disgwylir derbyn ymateb Llywodraeth Cymru ynglyn â chais Cynllun Partneriaeth Canol Tref Aberteifi o fewn yr wythnos nesaf.

Tud. 876, eitem 5(b): Ymatebwyd yn gadarnhaol i benderfyniad yr Arolygiaeth Gynllunio i wrthod cais Tai Ceredigion Cyf. i adeiladu ar gae chwarae Maesglas. Talwyd teyrnged i wirfoddolwyr yr ymgyrch a fu wrthi'n trefnu gweithgareddau codi arian er mwyn brwydro yn erbyn y datblygiad. Datganwyd pryder y cyngor bod y cwmni yn gwario arian prin y trethdalwyr i ailgeisio tro ar ôl tro ac i fynd i apêl ddwywaith.

Tud. 876, eitem 6(a): Gan nad oedd yn bosib parhau â'r syniad gwreiddiol, cytunwyd cyflwyno gwobr yn yr un dull a gyflwynwyd i Gwyn Morris. Yn dilyn mewnbwn gan y Cyng.

Richard Jones, argymhellwyd ei fod yntau yn cysylltu â'r Maer a'r Faeres cyn symud ymlaen. Deallir yn hwyrach y byddai Cadwgan yn gyfrifol am y lluniaeth.

Page 875, item 4: it is expected to receive feedback from the Welsh Government regarding the submission of the Cardigan Town Centre Partnership initiative during the coming week.

Page 876, item 5(b): Members reacted positively to the decision of the Planning Inspectorate to dismiss the appeal submitted by Tai Ceredigion Cyf. to develop the Maesglas play area and to refuse planning permission. A tribute was paid to the volunteers of the North Cardigan Action Support Group for their unstinting efforts to raise funds to oppose the efforts of Tai Ceredigion Cyf. Members expressed their concern that the company was wasting tax payers' money to persevere with endless applications following two appeal refusals.

Page 876, item 6(a): As the original idea was now defunct, it was agreed to present Ceri Wyn with a similar item as received by Gwyn Morris. Following an interjection from Cllr Richard Jones, it was also agreed that he would confer with the Mayor and Mayoress before a decision is made. It is understood that Cadwgan will now be responsible for the refreshments.

Oherwydd natur gyfrinachol y busnes oedd i'w drafod, gwaherddwyd y wasg, a thrafodwyd eitemau 2 a 6(d) o'r cofnodion uchod mewn pwyllgor. Cynigiwyd yr uchod gan y Cyng. John Adams-Lewis ac eiliwyd gan y Cyng. Catrin Miles.

In view of the confidential nature of the business to be transacted, the press, etc., were excluded and the council discussed items 2 and 6(d) of the above minutes in committee. The above was proposed by Cllr John Adams-Lewis and seconded by Cllr Catrin Miles.

7. Gweithgareddau'r Maer. Dyddiadau i'w nodi.
Activities of the Mayor. Dates for the diary.

8. Cynllunio / Planning

Penderfyniad Cyngor Sir Ceredigion / Ceredigion County Council decision:

<i>Rhif y Cais / App. No.</i>	<i>Cyfeiriad / Address</i>	<i>Y Bwriad / Proposal</i>	<i>Penderfyniad / Decision</i>
A130988	Awel yr Afon	The development of 23 dwellings consisting of General Needs Houses, General Needs Flats, Wheelchair Bungalow and associated works	<i>Mae'r cais wedi ei ganiatáu gydag amodau.</i> The application has been granted with conditions (22).
A140380	Capel Mair, Feidrfair	External maintenance work to be carried out to chapel, vestry, chapel house, vestry kitchen and associated external buildings	<i>Mae'r cais wedi ei ganiatáu gydag amodau.</i> The application has been granted with conditions (2).
A140381LB	Capel Mair, Feidrfair	External maintenance work to be carried out to chapel, vestry, chapel house, vestry kitchen and associated external buildings (Listed Building)	<i>Mae'r cais wedi ei ganiatáu gydag amodau.</i> The application has been granted with conditions (2).
A140385	3 High Street	Change of use of ground floor and first floor to Bistro and second floor to one flat.	<i>Mae'r cais wedi ei ganiatáu gydag amodau.</i> The application has been granted with conditions (4).

Planning application A130862: Land at Tenby Road, Cardigan.

The council discussed the revised plans for the above development. Four members of the public were present; the Mayor, Cllr Graham Evans, invited Mr Paul Bowen, to give a short presentation illustrating the concerns of local residents. Members had been previously furnished with these concerns. The proposed development includes thirteen new dwellings. Cllr Clive Davies chaired the proceedings and invited all members to offer their opinion. A number of issues was raised including the gross overdevelopment of a small site of 0.23ha which is situated in a quiet cul de sac at the end of Tenby Road. The original application contained outline planning for six dwellings only – the proposed scale of development is unacceptable. Other concerns included parking problems where 16 only parking bays have been allocated, bearing in mind the potential of 40 vehicles being on site. The adverse effect on plant and wildlife on the plot was also raised. Overcrowding on this small site would inevitably lead to neighbourly friction which would erode the quality of life of all Tenby Road residents who have enjoyed a peaceful standard of existence for many years. The traffic and road safety issues are other predominant points which need to be seriously addressed. A mandatory play area for children as stated in Policy LU24 of the Ceredigion Local Development Plan has not been included; the problem resulting from this omission will be compounded following the development of the Pentop play area on the other side of this busy

road – allowing this development will endanger the lives of young children crossing this highway to reach Pentop. Residents are completely justified in their concerns that the correct process of consultation regarding the development has not been practised by the authority. The town council wishes to record that more social housing of this nature to meet local needs should adhere strictly to a local letting policy.

Following the voting procedure, Cardigan Town Council unanimously rejected the development in its entirety and respectfully requests the authority to seriously consider the above issues and thereby refuse the application.

9. Biliau i'w talu / Bills to be paid.

Dyddiad / Date	Taledigion / Payee	Côd / Code	Rhif y Siec / Cheque No.	Swm (TAW) / Sum (VAT)
1/8/14	Antur Teifi: <i>Rhent y Swyddfa/Rent of Office</i>	A7	D/D	£238.33 (0.00)
1/9/14	Antur Teifi: <i>Rhent y Swyddfa/Rent of Office</i>	A7	D/D	£238.33 (0.00)
2/8/14	BNP Paribas: <i>Taliad terfynol am yr hen lungopiwr. Final payment for the old photocopier</i>	A16	3993	£506.34 ★
31/7/14	L. W. Jones: <i>Cyflog y Clerc/Clerk's Salary (Gorffennaf/July)</i>	A3	3994	£732.95 (0.00)
31/8/14	L. W. Jones: <i>Cyflog y Clerc/Clerk's Salary (Awst/August)</i>	A3	3995	£732.95 (0.00)
31/7/14	Antur Teifi: <i>Rhent yr Ystafell Gynhadledd. Rent of Conference Room (1/7/14, 15/7/14 & 16/7/14 [Town Centre Partnership]), 12/8/14</i>	A7	3996	£120.00 (20.00)
14/7/14	Trywydd (<i>Cyfieithu ar y pryd/Simultaneous translation</i>) (1/7/14) (15/7/14)	A17	3997	£50.40 (8.40) £81.90 (13.65)
13/8/14	Midshire Business Systems	A16	3998	£8.78 (1.46)
16/7/14	Playsafety Limited: <i>Archwilio'r meysydd chwarae. Inspection of play areas.</i>	C4 C5	3999	£81.60 (13.60) £78.00 (13.00)
21/8/14	Newsquest: <i>Hysbyseb tendro'r goleuadau Nadolig. Advert: tendering for Christmas lights</i>	A8	4000	£101.52 (16.92)
31/7/14	<i>Bachan Deche / Handyperson (Gorffennaf/July)</i>	A18	4001	£510.30 (85.05)
31/8/14	<i>(Awst/August)</i>			£434.70 (72.45)
30/6/14	CCF: <i>Compost i'r blodau/Compost for flowers</i>	C2	4002	£20.82 (3.33)

Eglurodd y clerc bod y taliad oddi wrth Midshires Business Systems wedi ei drosglwyddo i BNP Paribas fel tâl terfynol am yr hen lungopiwr.

The clerk verified that the payment from Midshires Business Systems had been transferred to BNP Paribas as the final payment for the old photocopier.

Cynigiwyd gan y Cyng. Jane Roche ac eiliwyd gan y Cyng. Llwyd Edwards bod y biliau uchod yn cael eu talu.

It was proposed by Cllr Jane Roche and seconded by Cllr Llwyd Edwards that the above bills be paid.

<i>Derbyniadau/Receipts:</i>	9/6/14	<i>Llog y Banc/Bank Interest</i>	£4.74
	9/7/14	<i>Llog y Banc/Bank Interest</i>	£4.42
	25/7/14	<i>Midshire Business Systems</i>	£506.34 ★
	12/8/14	<i>Cyngor Sir Ceredigion (Paent/Paint for Bandstand)</i>	£150.00

10. Adroddiadau'r Cyngorwyr Sir / Reports from County Councillors.

(a) Y Cyng. John Adams-Lewis:

- (i) **Mynwent Aberteifi: Cafwyd cyfarfod gan y tri chynghorydd sir gyda swyddogion y cyngor sir i drafod cyflwr y fynwent yn y dref. Awgrymwyd y dylid cadw'r gofod rhwng y cerrig beddau yn glir er mwyn hwyluso gwaith y torwyr porfa; bydd hyn yn arwain at dacluso'r safle. Deallir y bydd anfon llythyron yn cynghori teuluoedd yr ymadwedig o'r weithred yn fater o sensitifrwydd.**
- (ii) **Mae'r cyngor sir wedi argraffu taflen "Mae'n amser trafod toriadau". Disgwylir i'r cynghorwyr eu llenwi. Maent ar gael i bawb mewn llyfrgelloedd a safleoedd cyhoeddus yn y dref.**

- (iii) **TEEMI: Cafwyd cyflwyniad arbennig gan Chris Evans a Tim Wright am ddatblygiadau tymor-hir i aber yr afon yn Patch, megis ei chwrs, cyfleusterau hwylio, glanhau'r pontw'n, parcio ar hyd Coronation Drive, rheolaeth ar jetskis. Cynrychiolwyd y canlynol yn y cyfarfod: Cyngor Tref Aberteifi, Sianel Glir Afon Teifi, Menter Aberteifi, Cyngor Cymuned y Ferwig, Cyngor Cymuned Llandudoch, Dŵr Cymru, Clwb Cychod Teifi a Chyfoeth Naturiol Cymru. Disgwylir adroddiad ar yr ardal rhwng y ddwy bont yn Aberteifi.**

(b) Y Cyng. Catrin Miles:

- (i) **Mae'r fframiau-A ar hyd palmentydd y dref yn pery anawsterau i bobl mewn cadeiriau olwyn ac i deuluoedd ifainc. Gofynnwyd i Gerwyn Jones, Rheolwr Strydlun Trefol y cyngor sir, i archwilio'r sefyllfa.**
- (ii) **Mae'r cyngor sir wedi rhoi gwybod y bydd pont y Castell, Aberteifi, ar gau rhwng 6/10/14 a 1/12/14. Cytunwyd gwneud ymholiadau gogyfer ag adfer y ddau golofn golau ar y bont-ffordd, ynghyd â'r bont gerdded.**
- (iii) **Er diddordeb i aelodau: tra'n cyfarfod â swyddogion y cyngor sir ym mynwent Aberteifi, dangoswyd mynwent Miss Barbara Woods, gynt o Gastell Aberteifi, a'i mam, sydd yn gorffwys ym man claddu'r tlodion.**

(b) Cllr John Adams-Lewis:

- (i) **Cardigan Cemetery: The three local county councillors met with officers of the authority to discuss the condition of the cemetery. It was recommended that the space between the gravestones should be cleared and reclaimed as a lawn cemetery which will enable the grass to be cut neatly. It was appreciated that informing the families of the deceased of this action would be a sensitive issue.**
- (ii) **The county council has published a document, "It's time to talk cuts". Councillors are expected to complete the form which is available at the library and other public places; members of the public are also invited to participate.**
- (iii) **TEEMI: An excellent presentation was given by Chris Evans and Tim Wright regarding the proposed long-term development of the Teifi estuary at Patch, including the course of the river, sailing amenities, cleaning of the pontoon, parking along Coronation Drive, controlling the use of jet-skis. The following were represented at the meeting: Cardigan Town Council, Afon Teifi Fairways Limited, Menter Aberteifi, Ferwig Community Council, St Dogmaels Community Council, Welsh Water, Teifi Boating Club and Natural Resources Wales. A further report on the area between the two bridges in Cardigan is expected.**

(c) Cllr Catrin Miles:

- (i) **The numerous A-frames obstructing pavements in Cardigan are a cause for concern to the many wheelchair users and young families. A request has been made to Gerwyn Jones, the county council Urban Street-scene Manager, to monitor the situation.**
- (ii) **The county council has informed the town council of pending repairs to the old bridge near the Castle, which will take place between 6/10/14 and 1/12/14. It was agreed to make enquiries regarding retrieving the two light columns on the highway and repairing the footbridge lighting system.**
- (iii) **For information to members: during the meeting with officers of the county council, it was noted that Miss Barbara Woods and her mother, previous owners of Cardigan Castle, are interred in a pauper's grave near the entrance.**

11. Gohebiaeth / Correspondence.

	<i>Llythyron i'w nodi / i'w darllen</i> <i>Letters to be noted / read</i>	<i>Sylwadau / Comments</i>
110	<i>CSC/CCC (Allan Lewis): Ymgynghori ynghylch Canllawiau Cynllunio Atodol Drafft Cynllun Datblygu Lleol (CDLI)</i> <i>Ceredigion: Yr Amgylchedd Adeiledig a Dylunio, Cadwraeth Natur, Ynni Adnewyddadwy, Safonau Parcio ac Asesiad Trafnidiaeth.</i> <i>Ceredigion Local Development Plan Draft Supplementary Planning Guidance (SPG) Consultation: Built Environment and Design, Nature Conservation, Renewable Energy, Car Parking Standards, Transport Assessments. The above listed SPGs are subject to formal consultation from 17/7/14 until midday 26/9/14.</i>	<i>Dogfennau ar gael yn swyddfa'r clerc.</i> <i>Documents available at the clerk's office.</i> <i>Copiâu ar gael hefyd ar wefan y cyngor sir:</i> <i>Copies also available on the county council website:</i> <i>www.ceredigion.gov.uk/ldp</i>

111	CSC/CCC (Keith Morgan): <i>Cau ffordd dros dro / Temporary road closure – Greenland Meadows, 5/8/14 – 8/8/14</i>	<i>Nodwyd.</i> Noted.
112	CSC/CCC (Keith Morgan): <i>Cau ffordd dros dro / Temporary road closure – Coronation Drive, 14/7/14 – 18/7/14</i>	<i>Nodwyd.</i> Noted.
113	CSC/CCC (Keith Morgan): <i>Cau ffordd dros dro / Temporary road closure – Ffair Aberteifi/Cardigan Fair, 10/11/14</i>	<i>Nodwyd.</i> Noted.
114	CSC/CCC (Keith Morgan): <i>Cau ffordd dros dro / Temporary road closure – Pont Aberteifi/Cardigan Bridge, 6/10/14 – 1/12/14</i>	<i>Angen rhagor o wybodaeth a hysbysu'r awdurdod am ddyddiad Ffair Aberteifi (10/11/14).</i> More information is required regarding the cabling of lights and the footbridge. The authority needs to be informed of the date of Cardigan Fair (10/11/14)
115	CSC/CCC (Bronwen Morgan): <i>Poster i Ymwybyddiaeth Gyhoeddus – Cofrestru Etholiadol. Electoral Registration – Public Awareness posters.</i>	<i>Poster i wedi eu harddangos ar yr hysbysfyrddau.</i> Posters displayed on notice boards.
116	CSC/CCC (Paul Arnold): <i>Cyfleusterau Cyhoeddus Aberteifi. Public Conveniences in Cardigan.</i>	<i>Wedi ei drafod yn yr is-bwyllgorau.</i> Discussed at sub-committees.
117	CSC/CCC (Stephen Johnson): <i>Grant am baent i'r Bandstand. Grant for Bandstand paint (£150).</i>	<i>Siec wedi ei thalu i mewn i'r Banc.</i> Cheque paid into Council account.
118	CSC/CCC (Bronwen Morgan): <i>Agoriad Swyddogol Canolfan Enfys Teifi Official Opening, 3/9/14, 3.00pm.</i>	<i>Y Maer a'r Faeres i gynrychioli'r cyngor.</i> Mayor and Mayoress to represent council.
119	CSC/CCC (Alun Williams): <i>Cymunedau Gofalgar (Astudiaeth Achos Cymuned Pennant) / Caring Communities (Case Study of Pennant Community Ltd.)</i>	<i>Nodwyd.</i> Noted.
120	CSC/CCC (Paul Arnold): <i>Trefniadau casglu sbwriel . Refuse collection arrangements, 25/8/14</i>	<i>Nodwyd.</i> Noted.
121	CSC/CCC (Rosemary Rees): <i>Ymateb i ymholiadau'r cyngor ynglŷn â rhestru adeiladau / Response to the council's enquiry regarding registering listed buildings.</i>	<i>Ebost i'w drosglwyddo i'r Cyng. Llwyd Edwards. Bydd yntau wedyn yn anfon y rhestr o adeiladau rhestredig ymlaen i'r clerc.</i> Email forwarded to Cllr Llwyd Edwards who will furnish the clerk with an update of listed properties in Cardigan.
122	<i>Yr Arolygiaeth Gynllunio: Gwrthodwyd apêl Tai Ceredigion Cyf. i ddatblygu maes chwarae Maesglas.</i> The Planning Inspectorate: The appeal by Tai Ceredigion Cyf. to develop the Maesglas play area is dismissed and planning permission has been refused.	<i>Mae'r aelodau wedi derbyn copi o benderfyniad yr Arolygiaeth.</i> All members have received a copy of the Planning Inspectorate decision.
123	RAFA: <i>Gwahoddiad / Invitation to the Battle of Britain Service, St Cynwyl's Church, Aberporth, 21/9/14. 6.00pm</i>	<i>Copi wedi ei drosglwyddo i'r Maer.</i> Copy given to the Mayor.
124	<i>Llywodaeth Cymru / Welsh Government (Mark Drakeford): Ymateb i lythyron oddi wrth y cyngor a Chyfeillion Ysbyty Aberteifi i'w pryderon am y nifer o welyau a ddarperir gogyfer y gyfleustra iechyd newydd.</i> Response to the concerns of the council and the Cardigan Hospital League of Friends & Community regarding in-patient beds at the new facility.	<i>Nodwyd.</i> Noted.
125	<i>Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda University Health Board: Ymateb i lythyron oddi wrth y cyngor a Chyfeillion Ysbyty Aberteifi i'w pryderon am y nifer o welyau a ddarperir gogyfer y gyfleustra iechyd newydd.</i> Response to the concerns of the council and the Cardigan Hospital League of Friends & Community regarding in-patient beds at the new facility.	<i>Nodwyd.</i> Noted.
126	<i>Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda University Health Board: Gwybodaeth am Wasanaeth Mamolaeth a Newyddenedigol yn Ysbytai Glangwili a Llwynhelyg.</i> Information regarding the Maternity and Neonatal Services at Glangwili and Wityhush Hospitals.	<i>Poster wedi ei arddangos ar yr hysbysfwrdd.</i> Poster displayed on notice board.
127	Mr Nick Newland: <i>Cais am lythyr o gefnogaeth.</i> Application for a letter of support for a feasibility study into the possibility of using sail to power fishing boats.	<i>Mae'r clerc wedi anfon llythyr o gefnogaeth.</i> The clerk forwarded a letter of support on 31/7/14.

128	<i>Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro: Drafft Ymgynghorol Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol 2015-19.</i> Pembrokeshire Coast National Park Authority: Consultation Draft National Park Management Plan 2015-19.	<i>Mae'r ddogfen ar gael/Document available on the Authority's website: www.pembrokeshirecoast.org.uk and at Cardigan Library.</i>
129	Mr C. J. Bailey: <i>Llythyr ynglŷn â chostau parcio ym maes parcio Gloster Row.</i> Letter regarding parking costs at the Gloster Row car park.	<i>Nodwyd.</i> Noted.
130	Mr R. A. Gatehouse, Northants: <i>Llythyr yn mynegi siom ar reolau'r glirffordd.</i> Letter of complaint as to the signage on the new clearway.	<i>Nodwyd.</i> Noted.
131	Mr Stuart Whitehart: <i>Llythyr yn mynegi siom ar reolau'r glirffordd.</i> Letter of complaint as to the signage on the new clearway.	<i>Y clerwr i ofyn i'r awdurdod ynglŷn â'r arwyddion i hysbysu gyrrwyr am reolau parcio ar y glirffordd.</i> The clerk to enquire with the Wales Penalty Processing Partnership at Rhyl as to the legislation regarding repeater signs on the clearway.
132	Mr Matthew Morgan, Gwbert: <i>Llythyr yn achwyn am gostau parcio yn Aberteifi.</i> Letter of complaint regarding parking costs in Cardigan.	<i>Nodwyd.</i> Noted.
133	<i>Mark Williams AS/MP: Rhestr o gymorthfeydd/List of surgeries</i>	<i>Wedi ei arddangos ar yr hysbysfwrdd.</i> Displayed on notice board.
134	<i>Cronfa Prosiect Cofeb Ryfel, Llandudoch/St Dogmaels War Memorial Project Fund:</i> <i>Gwahoddiad i seremoni dadorchuddio'r gofeb.</i> An invitation to the Mayor, Mayoress and clerk to attend the unveiling and dedication of the new war memorial, 11/11/14, 11.00am.	<i>Tra bydd y Maer mewn seremoni'r cadoediad ger y senotaff yn Aberteifi, bydd yna gynrychiolaeth o'r cyngor yn Llandudoch.</i> As the Mayor will be at the armistice ceremony at the cenotaph, other representatives of the council will attend the unveiling ceremony at St Dogmaels.
135	<i>Cyngor Tref Aberystwyth Town Council: Poster i hysbysebu cyfarfod i drafod ad-drefnu gwasanaethau Ysbyty Bronglais.</i> Poster of a meeting to discuss changes to health provisions at Bronglais Hospital.	<i>Poster wedi ei arddangos ar yr hysbysfwrdd.</i> Poster displayed on notice board.
136	Woodland Trust: <i>Pecynnau plannu coed ar gael.</i> Tree planting packs available.	<i>Ebostr i'w flaenyrru i'r Cyngor. Catrin Miles a Llwyd Edwards. Mae yna bosibilrwydd o ddefnyddio'r coed ym meysydd chwarae Maesglas a Phentop.</i> Email to be forwarded to Cllrs Catrin Miles and Llwyd Edwards. The tree packs could be utilised at Maesglas and Pentop play areas.
137	<i>Comisiwn Elusennau/ Charity Commission: Ymateb ynglŷn ag ymholiadau'r cyngor/Response to the council's request for information regarding the playing field leases.</i>	<i>Mae cyfarfod wedi ei drefnu gyda Mr John Dyer am 11.00yb 4/9/14. Meeting has been arranged with the council's solicitor on 4/9/14.</i>
138	Mrs P. Woods, Blaenporth: <i>Cwyn am gyflwr toiledau'r menywod ym maes parcio Neuadd y Dref.</i> Complaint regarding the closure of the ladies toilet at the Guildhall car park.	<i>Trafodwyd yn ystod yr is-bwyllgorau.</i> Discussed at the sub-committee meeting.
139	Teifiside Probud Club: <i>Gwahoddiad i ginio.</i> An invitation to the Mayor and Mayoress to attend a dinner on 8/10/14 at the Cliff Hotel at 12.30 for 1.00pm.	<i>Mae'r gwahoddiad wedi ei drosglwyddo i'r Maer.</i> Invitation has been handed to the Mayor.
140	Ysgol Uwchradd Aberteifi: <i>Llythyr o ddiolch am y cyfraniad at deithio i Eisteddfod yr Urdd.</i> Acknowledgment of the council's donation towards travelling expenses to the Urdd Eisteddfod at Bala.	<i>Nodwyd.</i> Noted.
141	Antur Teifi: <i>Cytundeb o brydles am swyddfa'r clerwr o 1/3/14 hyd 1/9/14.</i> Licence to lease the clerk's office from 1/3/14 to 1/9/14.	<i>Arwyddwyd y cytundeb gan y Maer.</i> The agreement was signed by the Mayor.
142	<i>Cyngor Tref Llanbedr Pont Steffan: Llythyr o gefnogaeth am leihau prisiau parcio yn y sir.</i> Lampeter Town Council: Letter of support for reducing car parking fees in Ceredigion.	<i>Nodwyd.</i> Noted.
143	Shelter: <i>Cais am gymorth ariannol.</i> Application for financial support.	<i>I'w drafod yng nghyfarfod yr Is-bwyllgor Rhoddion ym mis Hydref.</i> To be discussed at the October Grants Sub-committee.

144	Bachan Deche: Adroddiadau misoedd Gorffennaf ac Awst. Handyperson: July and August reports	I'w drafod tan eitem 12(a). To be discussed under item 12(a)
-----	---	---

Allan Lewis:	<i>Pennaeth y Gwasanaethau Datblygu Economaidd a Chymunedol.</i> Head of Economic and Community Development Services.
Alun Williams:	<i>Pennaeth Cefnogi Polisi / Head of Policy Support</i>
Bronwen Morgan:	<i>Prif Weithredwr.</i> Chief Executive.
Keith Morgan:	<i>Pennaeth Asedau a Gwasanaethau Trafnidiaeth.</i> Head of Assets and Transportation Services
Paul Arnold:	<i>Pennaeth y Gwasanaethau Bwrdeistrefol ac Amgylcheddol.</i> Head of Municipal and Environmental Service
Stephen Johnson:	<i>Pennaeth y Gwasanaethau Ariannol / Head of Financial Service</i>

12. Materion Is-bwyllgorau, Adroddiad y Bachan Deche a Mudiadau Allanol.
Sub-committee matters, Handyperson's Report and External Organisations.
Cadarnhau Cofnodion yr Is-bwyllgorau 15 Gorffennaf.
Confirmation of 15 July Sub-committee Minutes.

Cynigiwyd gan y Cyng. Dai Brabrook ac eiliwyd gan y Cyng. Catrin Miles bod y cofnodion yn gywir.

It was proposed by Cllr Dai Brabrook and seconded by Cllr Catrin Miles that the minutes were correct.

Materion yn codi

Tud. 872 (Cae Chwarae): Mae'r wifren yn y maes aml-bwrpas yn gwaethygu, felly mae angen i'r contractwr gyflawni'r gwaith cynted â phosib.

Matters arising

Page 872 (*KG5th Playing Field*): The wire at the multi-purpose play area is rapidly deteriorating; the contractor to be informed so that the work can be completed shortly.

Adroddiad y Bachan Deche: Mae cyflwr rhwydi'r cwrt tenis yn wael; bydd angen ystyried y mater yng nghyfarfod y gyllideb ym mis Ionawr.

Bydd angen tynnu baneri'r strydoedd i lawr cyn bo hir. Gofynnwyd i'r Cyng. Richard Jones gysylltu â'r Bachan Deche i drefnu hynny pan fydd y goleuadau Nadolig yn cael eu tynnu ymaith.

Baneri hysybysu ar ffens Cae Chwarae Brenin Siôr 5ed: Cytunwyd trafod y gofynion hyn yng nghyfarfod cyffredinol Elusen CChBS5ed ym mis Hydref.

Handyperson's Report: The condition of the nets at the tennis courts has deteriorated; replacement nets to be considered at the January budget meeting.

The street bunting is to be taken down. Cllr Richard Jones was asked to contact the Handyperson to remove the bunting when the Christmas lights are taken down.

Advertising banners on the King George 5th Playing Field fence: It was agreed to place the item on the KG5th Playing Field Charity AGM agenda in October.

Adroddiadau Archwiliad y Meysydd Chwarae / Play Areas Inspection Reports (ROSPA).

Cytunwyd trafod yr adroddiadau yn yr is-bwyllgorau ar 16 Medi.

It was agreed to discuss the reports at the sub-committees, 16 September.

13. Personél / Personnel.

14. Cynllun Partneriaethau Canol Trefi Llywodraeth Cymru: Diweddariad.
Welsh Government Town Centre Partnership Initiative: Update.

15. Unrhyw Fater Arall ar ddoethineb y Maer.
Any Other Business at the Mayor's discretion.

(a) Llywodraeth Cymru / Welsh Government:

Papur Gwyn: Ad-drefnu Llywodraeth Leol. White Paper: Reforming Local Government

Mae'r ddolen i'r ddogfen wedi ei blaenyrru i'r holl gynghorwyr. Bydd angen llanw'r holiadur yn yr is-bwyllgorau ar 16 Medi. Mae'r cyngor sir yn trafod y ddogfen ar 3/9/14; disgwylir adborth gan y Cyng. Adams-Lewis.

The link to the document has been forwarded to all members. The questionnaire is to be completed at the sub-committees on 16 September. The county council will discuss the document on 3/9/14; a response is expected from Cllr Adams-Lewis.

Gan nad oedd materion pellach i'w trafod, daeth y cyfarfod i ben am 8.55yh.

There being no further business to discuss, the Mayor closed the meeting at 8.55pm.

Arwyddwyd/Signed (Cadeirydd/Chairperson) Dyddiad/Date